# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 01.12.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, John Brynmor Hughes, Tudor Owen, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams ac Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones- Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd a Peter Read.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 14eg o Fedi 2015 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 02.09.15 a 03.11.15.

**6. ADOLYGU POLISÏAU CYNGOR GWYNEDD**

**- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol**
**- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat**
**- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu ar y gwaith o adolygu'r polisïau trwyddedu i greu polisi unedig. Atgoffwyd yr aelodau, eu bod yn y Pwyllgor a gynhaliwyd Medi 14eg 2015 wedi

- awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio i gychwyn adolygiad o'r polisïau trwydded mewn perthynas â gweithredwyr, cerbydau a gyrwyr hacni a hurio preifat.

- cefnogi cyfeiriad cyffredinol Cynigion 1 i 5 fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad.

Nodwyd bod Y Cabinet wedi cytuno gyda'r egwyddorion ac ar yr angen i gysoni'r polisïau cyfredol. Cadarnhawyd bod yr Uned Trwyddedu wedi dechrau adolygu'r polisïau a bod y gwaith ymchwil eisoes wedi amlygu materion oedd angen sylw.

Un o'r materion oedd bodolaeth 'is-ddeddfau'. Nodwyd bod y polisïau presennol wedi eu derbyn yn 2010, er mai yn 2003 y cawsant eu hadolygu yn eu cyfanrwydd. Yn fersiwn 2003 mae amodau yn cyfeirio at is-ddeddfau, ond yn addasiad 2010 nid oes cyfeiriad at yr is-ddeddfau hyn. Drwy gydweithio gyda'r Uned Gyfreithiol, darganfuwyd bod yr is-ddeddfau yn parhau mewn bodolaeth ac felly rhaid sicrhau bod rhain yn cyd fynd â'r polisïau yn drefnus a chywir. Atgoffwyd yr aelodau bod rhaid cael is-ddeddfau er mwyn sicrhau amodau i yrwyr cerbydau hacni.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth,
- sicrhau eglurder a rheolaeth yng nghyd destun is-ddeddfau
- cytuno bod angen tacluso'r polisïau i leihau dryswch
- edrych ar yr hyn mae Cynghorau eraill yn ei weithredu.

Gwnaed sylw ar y defnydd o 'waledi oren', lle awgrymwyd cynnwys '*hyfforddiant ar gefnogaeth i gwsmeriaid bregus / anabl / dall*' fel amod gyrrwr tacsi. Mewn ymateb, nodwyd bod rhai Cynghorau eisoes yn mabwysiadu'r hyfforddiant fel amod a bod modd i Wynedd ystyried hyn fel rhan o'r prawf gwybodaeth y mae'n rhaid i bob gyrrwr ei gwblhau.

Mewn sylw at newidiadau posib i'r Mesur Mewnfudo (Immigration Bill), lle bydd rhaid i ymgeisydd, wrth wneud cais am drwydded gyrrwr tacsi, dystiolaethu ei hawl i weithio yn y wlad a dim 'trosedd mewnfudo', nodwyd y bydd angen addasu'r polisïau yn amodol ar benderfyniad Tŷ'r Cyffredin.

**PENDERFYNWYD**

**Cefnogi'r Uned Drwyddedu i barhau ar eu hadolygiad o'r polisïau trwyddedu gan gydweithio gyda'r Uned Gyfreithiol i sicrhau eglurder a rheolaeth dros yr is ddeddfau.**

**Bod angen mabwysiadu 'hyfforddiant ar gefnogaeth i gwsmeriaid bregus / anabl / dall' fel amod gyrrwr tacsi ac fel rhan o'r prawf gwybodaeth sydd angen ei gwblhau.**

Diolchwyd i'r Uned Trwyddedu am eu gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 3.25pm